

Basged Cwningen y Pasg



Byddwch angen:

- Argraffydd a phapur neu gerdyn argraffu
- Siswrn, tâp gludiog a glud
- Pensiliau lliw, creonau neu binnau ffelt
- Cyflenwadau crefft fel pom poms, sticeri a siapiau
- Pot iogwrt mawr glân, gwag neu debyg

Argraffwch y ffeil ar gyfer Cwningen y Pasg.

Os wnaethoch chi argraffu'r gwningen ar bapur efallai y byddwch eisiau gludo'r papur ar ddarn o gerdyn tenau i'w wneud yn llai llipa. Efallai gallech ddefnyddio bocsgrawnfwyd gwag?


Pan fydd y glud yn sych, torrwrch o amgylch y gwningen, ynghyd â'r strided hir wrth ei ochrau, gan dorri ar hyd y llinell doredig, yn ofalus. Torrwrch y strided tenau hir uwchben y gwningen a'r blodau hefyd, hon fydd eich handlen. Yn olaf, torrwrch y blodau, gallwch ddefnyddio'r rhain i addurno eich basged, neu ddylunio a lluniadu eich addurniadau eich hun a thorri'r rhain yn lle. Gofynnwch i oedolyn eich helpu.

Dewch â dwy ymyl y strided bob ochr i'r gwningen at ei gilydd i greu cylch, gyda'r gwningen yn y cefn, yn wynebu tuag at i mewn. Os oes gennych bot iogwrt mawr glân gwag, pot planhigyn glân, neu rywbeth tebyg, gallwch lapio basged y gwningen o amgylch hwnnw.

Defnyddiwch eich blodau, pom poms lliwgar, sticeri neu ddarnau bach o bapur lliwgar i addurno eich basged. Gwnewch i'r fasedged edrych mor ddeniadol ag y gallwch!

Defnyddiwch dâp i ddiogelu handlen eich basged, un pen ar bob ochr.

Os wnaethoch chi ddefnyddio pot iogwrt neu bot planhigyn ewch ati i lenwi'ch basged gyda danteithion.



Argraffwch, gludwch i gerdyn tenau os oes rhaid, a thorrwch yn ofalus.